



Eich cyf/Your ref P-06-1269  
Ein cyf/Our ref EM/01108/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

22 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth yn rhoi gwybod bod y ddeiseb 'Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru' wedi dod i sylw'r Pwyllgor Deisebau gan Marie Curie a Chymdeithas Clefyd Niwronau Motor (MNDA).

Mae 'Cymru Iachach' yn disgrifio sut y bydd y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a'i ddatganiadau ansawdd cysylltiedig yn arwain ar y gwaith o ddatblygu gwasanaethau clinigol yn ystod y tymor Seneddol hwn.

Mae datganiadau ansawdd yn gosod y gweledigaethau ar gyfer gwasanaethau clinigol penodol ac maent wedi'u seilio ar fanylion gwasanaethau manylach. Maent yn disgrifio'r canlyniadau a'r safonau y disgwyliwn eu gweld gan wasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion. Bwriedir iddynt hefyd lywio pa nodweddion ansawdd y dylai gwasanaethau clinigol allweddol anelu atynt, yn ogystal â bod o gymorth i lywio'r Cylch Sicrhau Ansawdd lleol.

Yn wahanol i'r cynlluniau cyflawni sydd wedi'u cyhoeddi eisoes, ni fwriedir i ddatganiadau ansawdd bennu sut y dylai gwasanaethau gael eu cynllunio a'u cyflawni. Byrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau yw'r rhai sy'n cynllunio a chyflawni gwasanaethau. Mae datganiadau ansawdd yn nodi ein bwriadau o ran polisi ac yn nodi sut y mae gwasanaethau da yn edrych. Maent yn gosod disgwyliadau sy'n llawer iawn cliriach er mwyn i'r system ymateb iddynt.

Mae'r Datganiad Ansawdd Gofal Diwedd Oes yn mynd rhagddo'n dda ac mae'n cael ei gyd-gynhyrchu gan randdeiliaid statudol a gwirfoddol. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd proses o ymgynghori ar y datganiad ansawdd gyda rhanddeiliaid ehangach yn cael ei chynnal a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr haf.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services